IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 14 HYDREF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Parry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Goddard a/ac Murphy |

15 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

16 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – ICE HOUSE WALES

Ymgeiswyr: Cynrychiolwyd gan Adam Porter

Y Cais

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Ice Arena (Wales) Limited mewn perthynas â Chanolfan Iâ Cymru, Olympian Drive, Pentref Chwaraeon Caerdydd, Caerdydd.

Gwnaethpwyd cais am yr amrywiad canlynol:

> Amrywio'r drwydded i gynnwys gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle gan ganiatáu yfed alcohol mewn man a bennwyd ymlaen llaw y tu allan yn y sgwâr.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr ymgeisydd wedi cytuno i'r awgrymiadau yn y sylwadau gan Heddlu De Cymru. Felly byddai'r cais yn cael ei amrywio i gynnwys yr amodau canlynol:

(1) Dim defnydd o'r man allanol ar ôl 20:00 bob dydd;
(2) Dim defnydd o'r man allanol am gyfnod o dair awr cyn unrhyw ddigwyddiad a gynhelir yn y lleoliad.
Enghreifftiau o ddigwyddiadau o'r fath yw gemau cartref Cardiff Devils, unrhyw ddigwyddiadau chwaraeon eraill gan gynnwys digwyddiadau bocsio ac unrhyw ddigwyddiad cerddorol. Rhaid i'r Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig ymgynghori â'r Heddlu o leiaf 28 diwrnod cyn unrhyw ddigwyddiad o'r fath i osgoi unrhyw amheuaeth.

Dywedodd Swyddogion bod nifer o drigolion lleol wedi tynnu eu sylwadau yn ôl.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Siaradodd Adam Porter â'r Is-bwyllgor. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cais yn ceisio amrywiad sy'n caniatáu yfed alcohol mewn man allanol ger y siop goffi yn y lleoliad. Nid oedd Ice House Wales am werthu alcohol i'r cyhoedd i'w yfed oddi ar y safle.

Gan ymateb i gwestiwn gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd Adam Porter y byddai biniau ychwanegol yn cael eu rhoi yn y man allanol.

PENDERFYNWYD: - Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr Is-bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau wedi'u hawgrymu gan Heddlu De Cymru ac wedi'u derbyn gan yr ymgeisydd.

17 : CAIS AM HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO

Tynnwyd y cais yn ôl.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.10 am